Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

—

Independent Remuneration Board of the Senedd

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Taliadau@senedd.cymru
bwrddtaliadau.cymru
0300 200 6565

—

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Remuneration@senedd.wales
remunerationboard.wales
0300 200 6565

At: Ymatebwyr i ymgynghoriad y Bwrdd ar yr adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer 2023-24

Dyddiad: 30 Mawrth 2023

Pwnc: Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ar gyfer 2023/24

Cynhaliodd y Bwrdd Taliadau Annibynnol ymarfer ymgynghori ar ei Benderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ar gyfer 2023/24, yn unol â'i ddyletswydd o dan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan y Bwrdd rhwng 9 Ionawr a 9 Chwefror 2023. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Phenaethiaid Staff y pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd. Rhannwyd yr ymgynghoriad ar Twitter, cafodd ei hyrwyddo ar fewnrwyd a gwefan y Senedd, a chafodd ei hanfon yn uniongyrchol at randdeiliaid y Bwrdd.

Cafodd y Bwrdd 16 o ymatebion, a restrir isod. Hoffai'r Bwrdd ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymarfer hwn. Roedd yr ymatebion a gafwyd yn ddefnyddiol iawn o ran llywio penderfyniadau'r Bwrdd ac rydym yn gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech a gymerodd i'w cynhyrchu.

Ystyriodd y Bwrdd yr ymatebion hyn yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth a chytunodd ar Benderfyniad diwygiedig yn ei gyfarfod ar 16 Mawrth.

Rhoddir sylw hefyd i rai o'r sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar faterion nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â chynigion yr ymgynghoriad. Bydd yr holl faterion a godwyd yn cael eu hystyried fel rhan o raglen waith barhaus y Bwrdd.

Mae newidiadau i'r Penderfyniad y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd ar gyfer 2023/24 wedi'u rhestru isod.

Cofion gorau

Dr Elizabeth Haywood
Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Newidiadau i'r Penderfyniad

Cynnig 1: Swm gwariant sy'n gofyn am dri dyfynbris ysgrifenedig

1. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos y byddai cynyddu'r swm lle mae'n ofynnol i'r Aelodau gyflwyno tri dyfynbris ysgrifenedig yn arwain at broses gaffael fwy effeithlon sy'n cymryd llai o amser i Aelodau a'u staff. Dywedodd yr ymatebion hefyd nad oedd yn bosibl mewn rhai achosion ddod o hyd i dri darparwr ar gyfer rhai nwyddau neu wasanaethau.

2. Mewn ymateb, cytunodd y Bwrdd i newid y Penderfyniad i adlewyrchu'r angen am dri dyfynbris ysgrifenedig ar gyfer unrhyw wariant ar nwyddau neu wasanaethau â gwerth amcangyfrifedig dros £1,500. Roedd hyn yn wahanol i'r cynnig a oedd yn galw am sylwadau ar drothwy o £1,000. Mewn ymateb i dystiolaeth gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd, bydd y Penderfyniad hefyd yn cael ei newid i nodi y caiff Aelodau ofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw gan Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau mewn achosion eithriadol i ddatgymhwyso'r gofyniad i gael tri dyfynbris.

Cynnig 2: Lwfans gweithio gartref

3. Roedd pawb a ymatebodd yn cytuno â'r cynnig, ond roedd gan y Ceidwadwyr Cymreig bryderon na fydd y lwfans ar sail pro rata. Ar adeg drafftio'r cynnig, roedd y Bwrdd wedi ystyried y dadleuon dros gyfrifo'r lwfans ar sail pro rata, gan gynnwys y costau a'r amser staff ychwanegol a fyddai'n gysylltiedig â hynny. Daeth i'r casgliad y byddai'n anghymesur â'r swm dan sylw ac yn lleihau'r gwerth am arian yn gyffredinol. Cytunodd y Bwrdd i newid y Penderfyniad fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Bydd y Penderfyniad yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn:

- ddileu adran 2.5 o'r Penderfyniad, sef 'Cymorth o gronfeydd canolog sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19';

- cyflwyno darpariaeth newydd ym Mhennod 7 a Phennod 8 o'r Penderfyniad sy'n darparu ar gyfer Lwfans Gweithio Gartref o hyd at £6 yr wythnos (neu £26 y mis ar gyfer gweithwyr sy'n cael eu talu'n fisol mewn ôl-daliadau) tuag at gostau ychwanegol gweithio gartref ar gyfer Cymorth i Aelodau Staff a Staff Cymorth Grŵp. Ni fydd hyn ar sail pro rata;

talu'r lwfans hwn o gronfeydd canolog.

Cyflogau'r Aelodau

4. Nododd y Bwrdd y bydd cyflogau'r Aelodau (gan gynnwys cyflogau deiliaid swyddi), yn unol â'r ddarpariaeth fynegeio flynyddol y cytunwyd arni ar gyfer y Chweched Senedd, yn cynyddu 3 y cant ym Mhenderfyniad 2023-24. Dywedodd un ymatebwr na ddylai'r cynnydd

blynyddol i gyflogau'r Aelodau fod yn gymwys ar gyfer cyflogau Deiliaid Swyddi Ychwanegol, ac y dylai yn lle hynny adlewyrchu cwantwm y gwaith a wneir.

5. Nododd y Bwrdd y sylw hwn. Fodd bynnag, yn unol â *Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010,* ni chaiff y Bwrdd wneud mwy nag un penderfyniad mewn perthynas â chyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi sy'n dod i rym yn ystod pob tymor yn y Senedd, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Cynnig 3: Cyfrifoldebau gofalu

6. Roedd y rhai a ymatebodd i'r cynnig o blaid. Roedd grŵp Llafur Cymru yn dymuno tynnu sylw at faterion yn ymwneud ag argaeledd gweithwyr gofal plant proffesiynol sy'n gallu darparu gofal plant digon hyblyg. Nododd y Bwrdd yr anawsterau i'r rhai sy'n ceisio gofal plant, ac mae'n agored i weithio gyda Chomisiwn y Senedd i ystyried a oes angen unrhyw newid pellach i'r Penderfyniad.

7. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i newid y Penderfyniad fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Bydd y Penderfyniad yn cael ei ddiwygio i gyflwyno cynnydd o 10.1 y cant i'r terfyn ar y costau y gellir eu had-dalu i Aelodau â chyfrifoldebau gofalu o dan adran 3A.3.2, sef cyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ym mis Medi 2022.

Cynnig 4: Llety dros nos yn ardal Caerdydd

8. Roedd y rhai a ymatebodd o blaid y cynnydd arfaethedig. Nododd y Bwrdd yr awgrym gan Lafur Cymru y dylai cymorth llety fod yn seiliedig ar y pellter gwirioneddol i'r gwaith o'r prif gartref neu'r amser teithio, yn hytrach na'r tair ardal ddaearyddol eang iawn ar hyn o bryd. Nododd y Bwrdd hefyd argymhelliad Plaid Cymru y dylid adolygu'r diffiniad o 'Ardal Caerdydd'. Bydd y sylwadau hyn yn cael eu hystyried fel rhan o raglen waith y Bwrdd ar gyfer y Seithfed Senedd, sy'n cynnwys adolygiad thematig o 'Ffyrdd o Weithio'.

9. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i newid y Penderfyniad fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Bydd y Penderfyniad yn cael ei ddiwygio i gynyddu cyfradd y lwfans ar gyfer llety dros nos yn ardal Caerdydd yn ôl y gyfradd CPI ym mis Medi 2022, sef 10.1 y cant.

Cynnig 5: Llety dros nos y tu allan i Gaerdydd

10. Roedd y rhai a wnaeth sylwadau yn cytuno â'r cynnig. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i newid y Penderfyniad fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Bydd y Penderfyniad yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn:

- cynyddu cyfradd y lwfans ar gyfer llety dros nos y tu allan ardal Caerdydd (ac eithrio Llundain) yn ôl cyfradd CPI ym mis Medi 2022, sef 10.1 y cant.

- cynyddu cyfradd y lwfans fesul noson ar gyfer llety dros nos yn Llundain yn unol â chyfradd CPI ym mis Medi 2022, sef 10.1 y cant.

Cynnig 6: Llety dros nos gyda ffrind neu deulu

11. Roedd y rhai a wnaeth sylwadau yn cytuno â'r cynnig. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i newid y Penderfyniad fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad ac yn unol â chanllawiau Cyllid a Thollau EF. Bydd y Penderfyniad yn cael ei ddiwygio i ddiddymu'r lwfans llety dros nos gyda ffrind neu deulu.

Cynnig 7: Lwfans ardal allanol

12. Wrth ystyried y lwfans edrychodd y Bwrdd ar y symiau mae Aelodau'n eu talu am lety; chwyddiant CPI; newidiadau i gyflenwad a phrisiau'r farchnad ar gyfer fflatiau sydd ar gael yn ardal Bae Caerdydd; newidiadau i renti cyfartalog yng Nghaerdydd; ac adroddiadau diweddaraf y farchnad ar newidiadau i brisiau rhent ar gyfer eiddo rhent sy'n bodoli eisoes (yn hytrach na rhai newydd yn unig). Nododd y Bwrdd y pryderon gan y Ceidwadwyr Cymreig bod Aelodau wedi cael trafferth dod o hyd i lety fforddiadwy. Nodwyd hefyd bod y Grwpiau eraill o blaid y cynnig, gan nodi sylw Llafur Cymru y dylid disodli'r tair ardal ddaearyddol a ddefnyddir i bennu lwfansau â chyfrifiadau yn seiliedig ar y pellter gwirioneddol i'r Senedd a nodir uchod.

13. O ystyried yr ystod o safbwyntiau a fynegwyd, mae'r Bwrdd o'r farn bod ei gynnydd arfaethedig yn ddigon i alluogi Aelodau i ddod o hyd i lety priodol. Bydd y Bwrdd yn parhau i fonitro newidiadau yn y farchnad rhentu fel rhan o'i adolygiadau blynyddol.

14. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i newid y Penderfyniad fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Bydd y Penderfyniad yn cael ei ddiwygio i gynyddu'r lwfans misol a blynyddol ar gyfer llety dros nos i'r rheini y mae eu prif gartrefi yn yr ardal allanol yn ôl y gyfradd CPI ym mis Medi 2022, sef 10.1 y cant.

Cynnig 8 – Lwfans ardal allanol ar gyfer y rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu

15. Roedd y rhai a wnaeth sylwadau o blaid y cynnydd arfaethedig. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i newid y Penderfyniad fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Bydd y Penderfyniad yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn:

- cynyddu cyfradd y Lwfans Gofalwr yn ôl y gyfradd CPI ym mis Medi 2022, sef 10.1 y cant.

Cynnig 9 – Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr

16. Croesawodd y grwpiau gwleidyddol y cynnydd i'r gronfa. Lleisiwyd pryderon penodol ynghylch a oedd yn ddigon i fynd i'r afael â'r pwysau a wynebir gan Aelodau mewn ardaloedd â rhenti uchel neu'r gost uwch ar gyfer postio wrth ymgysylltu ag etholwyr, ac a ddylai'r lwfans fod yn wahanol ar gyfer Aelodau Rhanbarthol sy'n gwasanaethu ardal/poblogaeth fwy nag Aelodau Etholaethol neu ar gyfer yr Aelodau hynny sy'n ymgymryd â busnes o Dŷ Hywel yn unig. Galwodd dau grŵp hefyd ar y Bwrdd i fynd i'r afael â'r bwlch cynyddol rhwng cyllidebau swyddfeydd Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol.

17. Cynigiodd y grŵp Llafur atebion amgen ar gyfer mynd i'r afael ag amrywiadau mewn costau rhentu, megis talu rhai costau o gyllideb ganolog i wneud iawn am yr amrywiad ledled Cymru, er mwyn sicrhau safonau cyson ar draws yr holl swyddfeydd. Fel arall, gwnaethant gynnig atodiad ar gyfer Aelodau sy'n wynebu costau uwch oherwydd prisiau'r farchnad leol, yn debyg i'r hyn sydd ar gael i Aelodau Seneddol Llundain.

18. I gydnabod y pwysau chwyddiant y mae Aelodau'n eu hwynebu, cynigiodd y Bwrdd daliad untro o £1,000 i Aelodau yn y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr ym mis Ionawr 2023.

19. Nododd y Bwrdd y sylwadau gan bob un o'r grwpiau gwleidyddol bod llwyth gwaith staff wedi cynyddu ers COVID.

20. Bydd y Bwrdd yn ystyried ymhellach a oes angen atebion eraill i fynd i'r afael â'r ystod o gostau rhentu y mae Aelodau'n eu hwynebu. Bydd hyn yn cael ei ystyried ymhellach fel rhan o raglen waith barhaus y Bwrdd sy'n cynnwys adolygiadau thematig ar 'Staffio' a 'Ffyrdd o Weithio'.

21. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i newid y Penderfyniad fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Bydd y Penderfyniad yn cael ei ddiwygio i gynyddu terfyn uchaf lwfans y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yn ôl y gyfradd CPI ym mis Medi 2022, sef 10.1 y cant.

Cynnig 10 – Asesiadau DSE

22. Nododd y Bwrdd y sylwadau gan ymatebwyr bod angen mwy o gefnogaeth i gynnal asesiadau DSE a mwy o eglurder ynghylch cyfrifoldebau Aelodau i staff o ran sicrhau bod arferion gorau yn cael ei ddilyn. Mae'r Bwrdd yn ddiolchgar am y sylwadau gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd ynghylch eglurder pellach posibl o ran iechyd a diogelwch ac asesiadau DSE.

23. Nododd y Bwrdd hefyd sylwadau a oedd yn awgrymu y dylid adolygu'r terfyn presennol ar gyfer offer TGCh yng ngoleuni'r niferoedd cynyddol o staff sy'n gweithio gartref. Comisiwn y

Senedd sy'n gyfrifol am benderfyniadau ynghylch offer TGCh a chaiff y sylwadau hyn eu hanfon ymlaen.

24. Mae'r Bwrdd wedi anfon sylwadau ar yr angen am arweiniad ymlaen i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau a bydd y Bwrdd yn parhau i chwilio am ffyrdd o wella eglurder ynghylch y ddarpariaeth Iechyd a Diogelwch yn ei raglen waith barhaus.

25. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i newid y Penderfyniad fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Bydd y Penderfyniad yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn:

- mewnosod datganiad yn adran 6.6 i egluro y gellir defnyddio'r lwfans iechyd a diogelwch y darperir ar ei gyfer yn adran 6.6 i dalu costau asesiadau DSE ac unrhyw offer y nodir ei fod yn angenrheidiol er mwyn hwyluso gweithio'n ddiogel gartref;

- ail-eirio adran 6.6 i gadarnhau nad oes rhaid i berson priodol a gymeradwyir gan y Prif Weithredwr a Chlerc argymell prynu unrhyw offer y nodir ei fod yn ofynnol gan asesiad DSE (ar hyn o bryd mae adran 6.6 yn cyfyngu ar ad-dalu costau mesurau iechyd a diogelwch i'r rhai a argymhellir gan berson o'r fath).

Cynnig 11 – Darpariaethau iechyd a diogelwch

26. Roedd pawb a ymatebodd yn croesawu'r cynnig. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i newid y Penderfyniad fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Bydd y Penderfyniad yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn:

- fel y bydd y cyfeiriad ym mharagraff 6.6.1 at 'yn eu hadeiladau' yn cael ei ddileu i'w gwneud yn glir y gellir talu cost mesurau iechyd a diogelwch o'r cyllid y darperir ar ei gyfer yn adran 6.6 waeth ble mae'r mesurau hynny yn cael eu hystyried yn angenrheidiol;

- mewnosod darpariaeth ychwanegol yn adran 6.6 i'w gwneud yn glir, lle ystyrir bod angen mesurau iechyd a diogelwch oherwydd anabledd, y gellir hawlio costau hyn yn erbyn Pennod 3A (Cymorth Ychwanegol).

Cynnig 12 – Cyflogau staff cymorth

27. Bu'r Bwrdd yn ystyried y sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn dadlau y dylai'r cynnydd arfaethedig i gyflogau fod yn uwch i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau byw. Ni wnaethant roi ffigwr ond awgrymodd un y dylai fod yn agosach at y gyfradd chwyddiant. Roedd y mwyafrif o Staff Cymorth yr Aelodau yn croesawu'r taliad costau byw ychwanegol arfaethedig. Dadleuodd rhai ymatebwyr nad yw cyflogau staff cymorth yr Aelodau yn gystadleuol ar hyn o bryd ac y dylid eu cynyddu i gyfateb i gyflogau staff cymorth Aelodau Seneddol.

28. Wrth ystyried y cynnig, ystyriodd y Bwrdd ei gyfrifoldeb i wneud penderfyniadau sy'n briodol o fewn cyd-destun cyflogau yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru. Bu'r Bwrdd yn ystyried tystiolaeth bellach ar benderfyniadau a thrafodaethau cyflog parhaus mewn deddfwrfeydd eraill ac yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a'r dangosyddion economaidd diweddaraf a rhagolygon chwyddiant ar gyfer y flwyddyn i ddod. Roedd proses y Bwrdd ar gyfer gwneud penderfyniadau yn cynnwys cydbwyso'r angen i liniaru effaith uniongyrchol yr argyfwng costau byw ar staff ar gyflog isel sy'n arbennig o agored i'w effeithiau, a fforddiadwyedd cyffredinol costau staff uwch ar adeg o bwysau ychwanegol ar gyllidebau'r sector cyhoeddus. Nododd y Bwrdd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan grŵp Llafur Cymru, staff cymorth Llafur, GMB ac Unite a grŵp Plaid Cymru ar effaith y pwysau costau byw a wynebir gan staff.

29. Ym mis Rhagfyr 2022, i gydnabod yr amgylchiadau economaidd, gwnaeth y Bwrdd benderfyniad eithriadol (a wnaed yn unol ag adran 14 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010) i roi taliad cyfradd unffurf o £600 i'r holl Staff Cymorth ym mis Ionawr 2023, i helpu i dalu costau byw uwch.

30. Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cytunodd y Bwrdd i gynyddu cyflogau Staff Cymorth 3 y cant ar gyfer 2023/24 yn unol â'r cap o 3 y cant y cytunwyd arno ar gyfer y Chweched Senedd. I liniaru pwysau costau byw, cytunodd y Bwrdd hefyd y dylai'r taliad costau byw fod yn uwch na'r hyn a gynigiwyd, ac y caiff taliad o £600 ei dalu i Staff Cymorth. Bydd pob aelod o staff mewn swydd ar 1 Ebrill 2023 yn gymwys i gael y £600 sy'n daladwy fel cyfandaliad oni bai bod yr aelod o staff cymorth yn gofyn am gael rhandaliadau (er enghraifft, er mwyn iddo beidio ag effeithio ar ei fudd-daliadau). Bydd y £600 yn cael ei gynnwys mewn cyflogau o fis Ebrill 2024 ymlaen.

31. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd cyflog o 5.8 y cant ar gyfer y rhai ar waelod graddfa gyflog Band 3, i 4.2 y cant ar gyfer y rhai ar frig y raddfa gyflog ar gyfer Pennaeth Staff.

32. Os bydd aelod o Staff Cymorth yn dymuno cael y taliad mewn mwy nag un rhandaliad neu ei wrthod, fe'i cynghorir i gysylltu â Chymorth Busnes i'r Aelodau cyn 13 Ebrill 2023 i hwyluso hyn. Gall Staff Cymorth hefyd wrthod y taliad os ydynt yn teimlo y gallai derbyn y taliad beryglu eu budd-daliadau tymor hwy, drwy gysylltu â Chymorth Busnes i'r Aelodau cyn 13 Ebrill 2023.

33. Roedd hyn yn wahanol i'r cynnig yn yr ymgynghoriad a oedd yn cynnig cynnydd o 3 y cant ynghyd â thaliad ychwanegol o £400 yn daladwy ym mis Ebrill 2023 i bawb sydd mewn swydd ar 1 Ebrill 2023.

34. Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn ymrwymedig i adolygu'r fframwaith tâl staff fel rhan o'i adolygiad o Gymorth Staffio.

Cynnig 13 – Lwfans Gwariant Staffio yr Aelodau

35. Nododd y Bwrdd y sylwadau gan bob un o'r Grwpiau gwleidyddol, a oedd yn croesawu'r cynnig ond a ddywedodd nad oedd y gyllideb yn ddigonol i ymdrin â llwythi gwaith cynyddol. Dadleuodd y Ceidwadwyr Cymreig a Llafur Cymru fod y gyllideb yn llai na'r hyn sydd ar gael i Aelodau Seneddol yng Nghymru, er bod y llwythi gwaith yn debyg, yn dilyn y cynnydd yn y llwyth gwaith ers COVID.

36. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r pryderon a fynegwyd ynghylch cynnydd mewn llwyth gwaith ac mae wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion hyn yn ei raglen waith barhaus, gan gynnwys drwy'r adolygiad arfaethedig o 'Gymorth Staffio'.

37. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i newid y Penderfyniad fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Bydd y Penderfyniad yn cael ei ddiwygio i gynyddu lwfans staffio Aelodau ar gyfer 2023/24 i alluogi Aelodau i gyflogi tri aelod o staff amser llawn ar yr uchafswm cyflogau a delir ar gyfer rolau'r Uwch Gynghorydd, Band 1 a Band 2. Bydd hyn yn arwain at gynnydd o £11,189 i Lwfans Gwariant Staffio pob Aelod.

Cynnig 14 – Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol

38. Roedd pawb a wnaeth sylwadau o blaid y cynnydd arfaethedig. Nododd y Bwrdd y sylwadau ar y cynnig hwn ynghylch llwythi gwaith uwch a oedd yn debyg i'r dadleuon a wnaed ar y cynnig i godi cyflogau Staff Cymorth. Dywedodd mwy nag un grŵp gwleidyddol ei fod yn edrych ymlaen at fynd i'r afael â'r materion hyn gyda'r Bwrdd fel rhan o'i adolygiad o 'Staffio', gan ddweud bod angen mwy o adnoddau ar lefel grwpiau i ddenu a chadw staff.

39. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i newid y Penderfyniad fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Bydd y Penderfyniad yn cael ei ddiwygio i gyflwyno cynnydd o 10.1 y cant i'r elfen o'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol sy'n ymwneud â chostau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogi staff. Bydd y Penderfyniad diwygiedig hefyd yn cael ei ddiwygio i ddangos y cynnydd yn y lwfans hwn o ganlyniad i gynnydd y cytunwyd arno i gyflogau staff.

Materion nad ydynt yn ymwneud â newidiadau arfaethedig i'r Penderfyniad

40. Trafododd y Bwrdd yr holl bwyntiau a godwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Roedd y rhain yn cynnwys materion nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cynigion. Er enghraifft, mae Plaid Cymru wedi galw ar y Bwrdd i gomisiynu ymchwil i systemau hawlio mewn seneddau eraill gan ddweud bod y system bresennol yn 'rhwystr' ac wedi arwain at staff yn talu costau mawr ymlaen llaw ac yn cael eu gadael ar eu colled. Mae'r tîm Cymorth Busnes i'r

Aelodau wedi dechrau gwaith ar ddulliau eraill o dalu a bydd yn sicrhau bod yr Aelodau'n cael gwybod am eu cynnydd.

41. Mae Plaid Cymru wedi galw am gydnabod rôl y Prif Chwip fel rôl ar wahân gyda thâl a hyfforddiant. Fodd bynnag, yn unol â *Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010*, ni chaiff y Bwrdd wneud mwy nag un penderfyniad sy'n cael effaith mewn perthynas â chyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi yn ystod pob tymor yn y Senedd, oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Efallai y bydd y Bwrdd ddychwelyd at y cwestiwn hwn fel rhan o'i adolygiad o dâl Aelodau ar gyfer y Seithfed Senedd.

42. Mae Llafur Cymru wedi gofyn am ganiatáu i Aelodau dalu costau teithio lleol rhesymol ar gyfer interniaid. Mae gan yr Aelodau hawl i wneud cais am ad-daliad ar gyfer unrhyw gostau rhesymol sy'n ymwneud â rhedeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr. Bydd y Bwrdd yn sicrhau, os oes angen mwy o eglurder o ran gwirfoddolwyr di-dâl neu bobl ar leoliad, y bydd hyn yn cael sylw fel rhan o'i waith parhaus, gan gynnwys y gwaith ar yr adolygiad 'Staffio'.